# Cytûn yn y Sioe Fawr




Cofiwch alw i mewn ym Mhabell yr Eglwysi – Uned 20 yn rhes D – yn ardal y stondinwyr os byddwch yn mynd i Lanelwedd eleni ar gyfer y Sioe Fawr, 18–21 Gorffennaf. Byddwn ar agor bob dydd rhwng 9.00 a 5.30.

Ymhlith yr atyniadau yno fe fydd:

- paned a bisged, a diod oer i'r plant
- oedfa fer bob dydd am 11.00
- gweithgaredd i blant trwy gydol y dydd
- gorsaf weddi a myfyrdod i oedolion
- arddangosfa gan Gymorth Cristnogol
- dewis eang o lyfrau Cristnogol yn Gymraeg a Saesneg
- cyfle am sgwrs a seibiant o fwrlwm y maes
- croeso cynnes i bawb.

Cadwch olwg hefyd am y tîm o gaplaniaid, yn eu siacedi melyn llachar, a fydd allan yn crwydro'r maes yn cynnal sgyrsiau hwnt ac yma.

Yn ogystal â phresenoldeb o fewn y stondin, cofiwch hefyd am oedfa'r Sioe, a gynhelir dan nawdd y Llywydd yn Eglwys y Santes Fair yn nhref Llanfair-ym-Muallt am 6.00 nos Sul, 17 Gorffennaf.

Cynhelir Gymanfa Ganu Moliant y Maes hefyd am 8.00, ar faes y Sioe, ym Mhabell Cneifio'r Defaid, nos Sul, 17 Gorffennaf. Croeso cynnes i bawb ymuno yn y canu.

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch ag Aled Davies ar 07894580192 / aleddavies@cytun.cymru



